

Cefn Gwlad

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Gwanwyn 2009

Y Sgôr uchaf am gyrsiau gradd yn IBERS

Pôl piniwn gan fyfyrwyr newydd raddio yw Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr. Fe'i gynhelir ledled y DU i geisio mesur bodlonrwydd â gwahanol ddarpariaethau, er enghraifft addysgu, asesu, cefnogaeth ac adborth.

Mae Prifysgol Aberystwyth wastad wedi cael dyfarniad uchel yn yr arolwg, ac roedd canlyniadau 2008 yn well nag erioed. Enillodd y cyrsiau gradd cefn gwlad, a redir yn IBERS, y marciau uchaf yn y DU i gyd. Ar gyfartaledd, gradd Bioleg IBERS a enillodd y sgôr uchaf o holl brifysgolion Cymru ac roedd eu sgoriau'n gyfartal â Cholegau Rhydychen, Caeredin, Bryste a'r Imperial.



Samplo'r mega-lithren – y cyfan yn enw gwyddoniaeth, wrth gwrs.

Ffermio ar ei Newydd Wedd

Fel rhan o'u modiwl 'Rheoli Cefn Gwlad ar Waith', bu myfyrwyr trydedd flwyddyn y cyrsiau Cefn Gwlad BSc yn ymweld â dwy fferm sydd wedi arallgyfeirio i dwristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn Fferm Aberyddnant ger Crai, mae'r perchennog wedi trosi rhai o dai allan y fferm yn fythynnod gwyliau hyfryd. Mae Fferm Aberyddnant yn cynnig cyfle i westeion brofi bywyd ar fferm organig ac anogir hwy i helpu gyda phorthi'r anifeiliaid a chasglu wyau'r ieir maes..

Yn Fferm Antur Cantref, mae'r perchnogion wedi datblygu atyniad ymwelwyr sy'n addas i deuluoedd ochr yn ochr a'u busnes ffermio traddodiadol ac ysgol farchogaeth. Mae'r fferm antur yn gyfle i ymwelwyr gymryd rhan yng ngweithgareddau'r fferm, megis porthi'r wyn neu fynd am dro ar y tractor a'r trelar. Fel arall, gellir rhoi cynnig ar rywbeth ychydig yn wahanol megis cael tro ar y 'mega-lithren' neu fod yn wylwr yn y rasyd moch. Yn ogystal â hyn, mae'r fferm yn cynnig llety ar ffurf byncws.

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cyrsiau

BSc

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth
Datblygiad Gwledig Cynaliadwy

Gradd Sylfaen

Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)


Cadwraeth Cefn Gwlad
Rheoli Cefn Gwlad
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diddordeb?

Ffoniwch **Fay Hollick** ar **01970 624471**

Glaswelltiroedd Rhithwir yn Datrys Pos Ecolegol

Mae ymchwil a gyhoeddir yn fuan yn y 'Journal of Theoretical Ecology' wedi ateb cwestiwn a fu'n achos penbleth i ecolegwyr ers blynnyddoedd. Gan ddefnyddio cyfrifiadur i efelychu glaswelltiroedd rhithwir, cred staff IBERS eu bod wedi darganfod pam fod y glaswelltiroedd mwyaf amaethyddol-gynhyrchiol yn isel o ran amrywiaeth botanegol, er mewn egwyddor y dylai fod dolydd cyfoethog eu rhywogaeth yn cynhyrchu mwy o fionàs. Mae'r ateb yn awgrymu y gellid yn y dyfodol greu systemau amaethyddol newydd a fyddai nid yn unig yn cynhyrchu mwy o fwyd ond hefyd yn cynorthwyo mwy o amrywiaeth.



Efelychiad cyfrifiadurol o laswelltir cynhyrchiol amrywiol a glaswelltir cynhyrchiol isel ei amrywiaeth

Myfyrwyr yn arddangos eu sgiliau codi waliau cerrig sychion ar Stad yr Hafod.

Yn ddiweddar bu myfyrwyr y cyrsiau cefn gwlad HND a Gradd Sylfaen yn helpu i ailgodi wal gerrig sych a oedd wedi mynd â'i phen iddi ar stâd hanesyddol yr Hafod. Gwnaed y gwaith gan gyn-fyfyriwr, Paul Dann, sydd bellach yn warden Ymddiriedolaeth yr Hafod i Stad y Comisiwn Coedwigaeth. Adeiladwyd cryn dipyn o'r wal ond y mae digonedd o waith ar ôl eto i fyfyrwyr y dyfodol. Cwblhawyd y gwaith penodol hwn fel rhan o fodiwl sgiliau stadau ymarferol sy'n datblygu ystod o sgiliau cefn gwlad megis plygu gwrychoedd, ffensio a phlannu coed.



Y wal yn ystod yr adeiladu.

Da iawn Jon!

Daeth llwyddiant i ran myfyriwr y flwyddyn gyntaf, Jon McCalmont, sy'n astudio am radd Sylfaen mewn Rheoli Cefn Gwlad pan enillodd wobwr Undeb Amaethwyr Cymru o £700 am draethawd a gyflwynodd ar ddyfodol ffermio yng Nghymru – 'The future of Welsh farming'. Derbyniodd Jon, sy'n dod o Langammarch Wells, Powys, ei wobwr gan lywydd UAC, Gareth Vaughan yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

Beth sydd gan athroniaeth i'w wneud â llygod y dŵr?



Llygoden Ddŵr

Yn 1985 cyhoeddodd Michael Soulé bapur ymchwil yn datgan fod cadwraeth yn 'ddisgyblaeth argyfwng' a ddylai dynnu ar sawl maes astudio i sicrhau llwyddiant. Ers hynny, gwelwyd diddordeb cynyddol mewn materion dynol, cymdeithasol, seicolegol, gwleidyddol a sefydliadol sy'n effeithio ar lwyddiant cadwraeth. Fodd bynnag, mae cyfuno gwyddorau cymdeithasol â'r hyn a fu'n draddodiadol yn bwnc gwyddonol, yn creu anawsterau megis yr angen i gysoni gwahaniaethau athronyddol rhwng meysydd astudiaeth. I hybu'r integreiddio, mae Dr Ioan Fazey, ynghyd ag ymchwilwyr eraill ym Mhrifysgol Aberdeen (Anna Eveley, Xavier Lambin, a Michelle Pinard) wedi ysgrifennu papur (yn y wasg, 'Ecology and Society') sy'n egluro sut mae mabwysiadu gwahanol ymdriniaethau athronyddol yn effeithio ar ganlyniadau ymchwil. Defnyddiant astudiaeth achos i ddeall cymhellion gwirfoddolwyr a ddefnyddiwyd i faglu'r Minc Americanaidd er mwyn diogelu llygod y dŵr. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd eglurder ynglŷn â thybiaethau athronyddol yr ymchwilydd wrth weithio ar brosiectau rhyngddisgyblaethol.

Sefyllfa Fregus a Newid yn yr Amgylchedd

Dros yr haf, treuliodd Dr Ioan Fazey fis yn gweithio gyda chyn-gydweithwyr ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia i geisio mynd i'r afael â chymhlethdodau addasu i'r newidiadau cyflym yn yr amgylchedd. Tra bod bodau dynol yn y gorffennol wedi ymateb er mwyn ymdopi â newidiadau amgylcheddol, mae llawer o'r ymatebion addasol wedi gwaethygu'r problemau gwreiddiol neu greu rhai newydd. Ar y cyd ag ymchwilwyr IBERS eraill (Mike Christie a Javier Gamarra) a chyfraniadau gan brifysgolion Leeds (Lindsay Stringer) ac Aberdeen (Mark Reed), pennodd y tîm dri rhagofyniad ar gyfer datblygu strategaethau addasu mwy effeithiol a fyddai'n lleihau'r ansicrwydd yn wyneb newidiadau annisgwyl y dyfodol. Mae'r rhagofynion hyn yn cynnwys yr angen i (1) gael gwared â gyrwyr eithaf newid amgylcheddol; (2) cynnal amrywiaeth o opsiynau ymateb i'r dyfodol; a (3) meithrin galluedd dynol i lwyr ddeall ac ymddiddori yn yr opsiynau hyn. Bwriedir i'r egwyddorion hyn gael eu cymhwysio i ddatblygu cymunedau gwledig a rheoli adnoddau yn Ynsoedd Solomon.

Papur Cynhadledd

Yn ddiweddar, aeth Ian Keirle, aelod o'r staff, i gynhadledd ryngwladol yn Tuscany, yr Eidal, ar Reoli a Monitro Llif Ymwelwyr. Traddododd bapur ar y defnydd o'r dechneg 'pwysigrwydd-perfformiad' fel modd o sefydlu boddhad ymwelwyr o ran ystod o faterion cefn gwlad. Seiliwyd hyn ar astudiaeth a gwblhawyd ganddo ar faterion rheoli'n gysylltiedig â mynediad i gefn gwlad Ceredigion.

IBERS yn codi arian i Blant mewn Angen

Unwaith eto daeth staff a myfyrwyr IBERS i herio'i gilydd yn y gêm bêl-droed flynyddol a gynhaliwyd yn yr arena geffylau dan do i godi arian i Blant mewn Angen. Rhoddwyd y chwaraewyr dan anfantais trwy wneud iddynt wisgo welintons a chlymu eu coesau gyda'i gilydd os oeddent yn sgorio.

Y myfyrwyr a enillodd y 'Gwpan Welis' am yr ail flwyddyn yn olynol – buddugoliaeth ieuencid dros henaint! Dyma sylwadau'r Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr y Sefydliad, a gymerodd ran a sgorio yn y gêm "Roedd hyn yn hwyl fawr ac mae'n dangos y berthynas waith agos sydd rhwng y staff a'r myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn falch o gefnogi achos mor deilwng â Phlant mewn Angen". Hyd yma casglwyd cyfanswm o £125.

